Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

29 Hydref 2013

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2014-15**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref 2013 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymatebion, fel y bo'n briodol, cyn gynted â phosibl.

Sylwn fod ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft wedi'u seilio ar ein pedwar amcan ar gyfer craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Defnyddiwyd yr amcanion hyn ar gyfer ein hystyriaethau ninnau ac rydym wedi nodi'r amcan perthnasol sy'n ymwneud â phob un o'r materion isod. Anfonir copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei ystyriaeth gyffredinol ynghylch y gyllideb ddrafft a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

## 1. Cynllun Grant Cyllid Tai Cymru

*(Amcanion ar gyfer craffu: gwerth am arian a blaenoriaethu)*

Croesawn Gynllun Grant Cyllid Tai Cymru ('y Cynllun') sydd â'r nod o gefnogi mwy o fuddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Nodwn fod y Cynllun hwn yn cynrychioli buddsoddiad cyffredinol o £120 miliwn gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 30 mlynedd. Fel rhan o hyn, croesawn yr ymrwymiad o £4 miliwn ar gyfer 2014-15.

Gwnaethom ofyn sut y byddwch yn monitro'r graddau y mae'r Cynllun yn cynrychioli gwerth am arian a pha ganlyniadau yr oeddech yn ceisio eu cyflawni. O ran gwerth am arian, dywedasoch wrthym: "exercise is built in upfront and not just at the end in terms of assessment". Aethoch ymlaen i ddweud mai eich canlyniadau disgwyliedig fydd oddeutu 1,000 o eiddo, a dywedasoch hefyd: "that is what is expected for the lifetime of the programme. This will, of course, add to the 7500 target in terms of housing requirements that we have put in our manifesto."

Gwnaethom hefyd ofyn ichi am ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i'r Cynllun, a gwnaethom groesawu eich datganiad, sef: "there is collective Government responsibility in terms of the investment made (…), so the £2 million from my department and the £2 million from the finance department are manageable for future years, I believe, post this Government too."

O ystyried graddau'r buddsoddiad a'r ymrwymiad ariannol hirdymor o dan sylw, credwn ei bod yn hanfodol ichi roi trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso'r graddau y mae'r Cynllun yn sicrhau gwerth am arian. **Hoffem ichi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y materion hyn o fewn y 12 mis nesaf. Ar yr un pryd, hoffem ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn eich targed o adeiladu 1,000 o eiddo dros y ddwy flynedd nesaf.**

## 2. Anghenion Lleol am Dai

*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

Gwnaethom ofyn ichi am y dulliau sydd ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn nodi'r angen lleol am dai yn gywir. Ar y pwynt hwn, roeddem yn falch o glywed eich bod wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gynharach eleni i'w gwneud yn ymwybodol iawn o ddyletswydd statudol newydd o ran cynnal asesiadau o'r farchnad dai leol bob dwy flynedd ac, yn eich barn chi, nad yw awdurdodau o dan unrhyw gamargraff ynghylch beth a ddisgwylir ganddynt bellach.

Credwn y dylech sicrhau bod gwaith monitro a gwerthuso parhaus yn mynd rhagddo mewn perthynas â thai fforddiadwy, yn enwedig y datblygiadau hynny a gefnogir gan grantiau cyfalaf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn y meysydd mwyaf priodol a chan ystyried ei bwysigrwydd.

## 3. Cymorth i Brynu Cymru

*(Amcanion ar gyfer craffu: gwerth am arian a blaenoriaethu)*

Croesawn y gyllideb o £69 miliwn a ddyrannwyd yn 2014-15 ar gyfer cynllun benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu Cymru. Nodwn eich tystiolaeth fod yr arian ar gyfer y Cynllun wedi'i neilltuo fel cyllid trafodion ariannol y gellir ond ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau benthyca ac ecwiti ac y mae'n rhaid ei ad-dalu i'r Trysorlys.

Gwnaethom ofyn ichi am ragor o fanylion am y trefniadau ad-dalu, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer hyn. Dywedasoch wrthym y bydd manylion y Cynllun yn gliriach pan wnewch eich cyhoeddiad yn ddiweddarach eleni.

O ran y trefniadau ad-dalu, dywedasoch wrthym: "a key part of the due diligence that we have to do before this scheme can be sucessfully launched is to be very clear on the payback terms. They need to be negotiated with the Treasury because … there will be an expectation that a sum of money goes back to HM Treasury in 2037." Gwnaethoch gydnabod bod hwn yn gyfnod ad-dalu hir a'ch bod yn cymryd y cyfrifiadau ad-dalu'n ddifrifol iawn.

Croesawn eich datganiad: "I am confident that we will be able to launch this Scheme, and will be making an announcement on it prior to Christmas." **Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer lansio'r Cynllun cyn gynted â phosibl**. At hynny, o ystyried y cyfnod ad-dalu hir, rydym yn awyddus i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer ad-dalu'r arian. **Gwnaethoch gytuno i roi rhagor o fanylion ar delerau ad-dalu'r Cyllid Trafodion Ariannol sydd ar gael ar gyfer cynllun benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu Cymru pan fydd y telerau hyn wedi cael eu trafod gyda Thrysorlys EM.** Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth hon maes o law.

## 4. Cefnogi Pobl

*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu, gwerth am arian a fforddiadwyedd)*

Nodwn eich bod, yn eich papur, yn nodi bod 82% o'ch cyllideb refeniw wedi'i dyrannu i feysydd gwariant ataliol a bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn un o'r meysydd hyn. Yn ein hystyriaeth o'r gyllideb y llynedd, gwnaethom ddweud ein bod o'r farn y byddai galw cynyddol am y rhaglen hon dros y flwyddyn nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd. Felly, rydym yn falch y gellid dod i gytundeb i sicrhau y gellir lleddfu rhai o'r toriadau a gynlluniwyd yn y dyraniad ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl. Nodwn fod y broses o flaenoriaethu'r rhaglen Cefnogi Pobl ar draul y cyllidebau adfywio a chynllunio.

Fel rhan o'n hystyriaethau ar y gyllideb y llynedd, roeddem hefyd yn awyddus ichi sicrhau bod systemau cadarn ar waith i sicrhau'r gwerth gorau am arian yn y rhaglen Cefnogi Pobl. O gofio hyn, nodwn eich datganiad eich bod yn ystyried datblygu gwaith ymchwil hydredol pellach ar effeithiolrwydd y rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol. **Byddem yn falch iawn o gael clywed rhagor o fanylion ar hyn maes o law.**

Roeddem yn falch o glywed hefyd y byddwch yn ysgrifennu at fyrddau sy'n cefnogi'r rhaglen Cefnogi Pobl ledled Cymru gan ofyn iddynt adolygu eu cyllidebau i weld a ellir gwneud gwelliannau. **Hoffem ichi nodi a yw hyn yn rhan o adolygiad mwy systematig o arbedion a diwygiadau posibl yn y dyfodol.**

## 5. Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai

*(Amcan ar gyfer craffu: fforddiadwyedd)*

O ran gadael Cynllun Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, dywedasoch wrthym: "we have worked out the numbers and have an agreement with local authorities in terms of what their levels of debt will be." Dywedasoch mai effaith gadael y Cynllun fyddai rhyddhau dros £30 miliwn yn ôl i mewn i'r system.

Dywedasoch wrthym eich bod yn cael trafodaethau datblygedig ynghylch gadael y cynllun, ond dywedasoch hefyd: "in order to exit sooner rather than later we really

need to have a voluntary agreement with the Treasury and local authorities … otherwise we will have to go through a legislative process that is out of our hands."

Nodwn nad ydych yn hyderus ond eich bod yn uchelgeisiol y gellir dod i gytundeb gwirfoddol i adael y Cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. **Rydym yn bwriadu cadw golwg ar y mater hwn ac, fel y cyfryw, gofynnwn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich cynnydd dros y chwe mis nesaf.**

**6. Tir**

*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

Croesawn y broses o sefydlu'r Cynllun Tir ar gyfer Tai gwerth £13.7 miliwn. Yn ein dau ymchwiliad diweddar ar y Rhwystrau i Adeiladu Cartrefi a Darparu Tai Fforddiadwy, cyfeiriwyd at argaeledd tir dro ar ôl tro fel un o'r rhwystrau i adeiladu tai, ar y farchnad agored a thai fforddiadwy. Dywedasoch wrthym mai rhan o'r rheswm dros sefydlu Cynllun Tir ar gyfer Tai unigol oedd sicrhau bod y gyllideb yn fwy tryloyw.

O ran rhyddhau tir ar gyfer tai newydd, dywedasoch wrthym am ddau ddarn o waith arwyddocaol sy'n mynd rhagddynt: un sy'n edrych ar y cyflenwad o dai, a'r llall (a arweinir gan yr Ysgrifennydd Parhaol) sy'n edrych ar asedau Llywodraeth Cymru. Dywedasoch wrthym y bydd y grŵp sy'n edrych ar y cyflenwad o dai yn ystyried darpariaeth tir a rhyddhau tir, p'un ai tir awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru neu sefydliad iechyd yw. Dywedasoch y byddai £5 miliwn o'r Cynllun yn gyllid trafodion ariannol sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i brynu tir - ond nid tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, ac y byddai cytundeb ynghylch sut y câi'r arian hwnnw ei ad-dalu, er nad oeddech wedi gweithio allan union fanylion y cytundeb trafodion cyllid eto. **Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y mater hwn maes o law.**

**7. Safon Ansawdd Tai Cymru**

*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

Croesawn y buddsoddiad parhaus i wella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cartrefi a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Nodwn fod y contract ar gyfer gwerthuso Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'i ddyfarnu i ymgynghorwyr allanol ac y bydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau erbyn dechrau 2014. **Gofynnwn i chi roi adborth i'r Pwyllgor ar hyn maes o law.**

Ar fater cysylltiedig, **byddem yn falch o gael rhagor o wybodaeth gennych am drefniadau a wnaed i fonitro effeithiolrwydd gwariant drwy'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr a thaliadau gwaddoli dros yr hir dymor.**

At hynny, **hoffem gael rhagor o fanylion am y broses o gymeradwyo cynlluniau busnes ar gyfer cyflawni a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am y graddau y caiff y buddiannau cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â gwella safonau tai eu hystyried wrth gymeradwyo cynlluniau a dyrannu cyllid.**

**8. Digartrefedd**
*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu a fforddiadwyedd)*

Nodwn fod y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer digartrefedd wedi'i gostwng £0.75 miliwn i £6.4 miliwn ar gyfer 2014-15 (10.4% neu 12.1% mewn termau real).

Gwnaethom ofyn i chi am effaith y dyraniad gostyngedig hwn, yn enwedig ar gyfer grwpiau gwarchodedig. Dywedasoch wrthym, "Even though this appears to be a budget for the homeless, the reality is that there is a range of things being funded through this budget and we are able to decide on the kind of projects that will be funded in future in order to decrease the effect on the protected groups."

Dywedasoch eich bod yn derbyn y caiff y gostyngiad yn y gyllideb effaith ar unigolion p'un a oedd ganddynt nodweddion gwarchodedig ai peidio, ond aethoch ymlaen i ddweud: "I cannot tell you what the impact will be … in terms of the detail, because the reduction of services will have a variable impact." Yna, dywedasoch eich bod yn ceisio datblygu, gyda'ch partneriaid, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, y ffordd rydych yn gweithredu o ran digartrefedd, gan newid cyfeiriad o gael gwariant adweithiol i gael gwariant ataliol er mwyn eich galluogi i wneud mwy gyda llai.

Credwn ei bod yn bwysig cael darlun clir o effaith y gostyngiad yn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer digartrefedd er mwyn gweld a yw grwpiau gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o gael eu heffeithio na grwpiau eraill. O ystyried eich bod yn derbyn y bydd effaith ar unigolion o ganlyniad i'r dyraniad gostyngol, ond na allwch ei feintoli, credwn y dylech sefydlu rhaglen i fonitro'r effaith hon, a **hoffem ichi gyflwyno'r canfyddiadau inni o fewn 12 mis.**

At hynny, **hoffem i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am sut y mae awdurdodau lleol yn monitro effeithiolrwydd eu mesurau ar atal digartrefedd, yn enwedig mewn perthynas ag effaith bosibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU.**

Yn olaf, gwnaethoch sôn eich bod yn cynnal adolygiad o'r grantiau a ddarperir o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996. **Hoffem ichi roi amlinelliad inni o'r amserlen ar gyfer hyn.**

**9. Addasu Cartrefi**
*(Amcan ar gyfer craffu: blaenoriaethu, gwerth am arian)*

Nodwn fod y gyllideb refeniw a ddyrennir ar gyfer Gofal a Thrwsio yn cael ei gostwng £500,000. O ystyried y dyraniad refeniw o £35 miliwn o fewn cyllideb llywodraeth leol ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol, gwnaethom ofyn i chi a fyddai rhywfaint o'r cyllid refeniw hwnnw ar gael i'r Adran Gofal a Thrwsio i unioni'r gostyngiad yn y gyllideb a ddyrennir iddi. Dywedasoch wrthym na fyddech yn ymrwymo i hynny, a hefyd: "I have said to the organisation that I have yet to be convinced of the reason that we have 22 Care and Repair agencies across Wales". Fodd bynnag, dywedasoch fod trafodaethau'n mynd rhagddynt am hyn. **Hoffem ichi adrodd yn ôl inni ar ganlyniadau eich trafodaethau gyda'r**

**Adran Gofal a Thrwsio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am sut y caiff y Gronfa Gofal Canolraddol ei defnyddio o fewn eich portffolio.**

**10. Deddfwriaeth**

*(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu, gwerth am arian, fforddiadwyedd)*

Nodwn eich bod yn bwriadu cyflwyno pedwar darn o ddeddfwriaeth sylfaenol cyn diwedd cyfnod y Cynulliad presennol; dau Fil tai a dau Fil cynllunio.

Yn benodol mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru), croesawn y ffaith bod £4.9 miliwn ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer cynlluniau dangosol 2015-16 i gefnogi'r broses o weithredu elfen ddigartrefedd y Bil.

At hynny, dywedasoch wrthym, o ran y ddarpariaeth ar gyfer is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r Bil Tai: "I am confident that we will be able to manage that within the financial aspect of the Bill… However … all of that detail will come through with all of the details of the Bill when I launch it later this year."

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth ariannol a ddarperir yn y dogfennau i gyd-fynd â phob Bil a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân os byddwn yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnom.

Yn olaf, gwnaethoch gytuno i ddarparu'r canlynol -

- Rhagor o fanylion am yr effaith hirdymor y mae diwygio lles yn ei chael ar gymunedau, pan fydd y wybodaeth honno ar gael (Gwnaethoch awgrymu y byddai'r wybodaeth hon ar gael mewn 12 mis neu lai).

- Manylion am gynnydd yr wyth Awdurdod Lleol nad oeddent wedi cwblhau eu cofrestrau o gartrefi hygyrch ar adeg y gwaith a wnaed gan eich rhagflaenydd ar hyn y llynedd.

- Papur cyllideb diwygiedig gyda manylion y gronfa gofal canolraddol yn y gyllideb gyfalaf.

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

cc. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid